



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

10 MLYNEDD O LBI ARCHPRO:

Prosiectau archwilio geoffisegol cydraniad-uchel graddfa-fawr yn Ewrop

Mario Wallner, Ymchwilydd, [Sefydliad Ludwig Boltzmann ar gyfer Archwilio Archaeolegol ac Archaeoleg Rithwir](#)

Mae Sefydliad Ludwig Boltzmann ar gyfer Archwilio Archaeolegol ac Archaeoleg Rithwir (LBI ArchPro), ar y cyd â'i bartneriaid rhyngwladol, wedi ymrwymo i ddatblygu technegau a chysyniadau methodolegol newydd ar gyfer archaeoleg dirweddol raddfa-fawr. Mae ei raglen ymchwil ryngddisgyblaethol yn cyfuno geoffiseg, synhwyro o bell a chyfrifiadureg i ddatblygu dulliau mwy effeithlon a chyffredinol gymwysadwy o ganfod safleoedd a thirweddau archaeolegol heb wneud difrod iddynt, eu dogfennu, eu dadansoddi, eu dehongli a'u delweddu.

Yn ystod y deng mlynedd ddiwethaf, mae LBI ArchPro wedi cynnal llawer o brosiectau archwilio archaeolegol helaeth ledled Ewrop, ac wedi gwneud cyfraniad sylweddol at ein gwybodaeth a dealltwriaeth o safleoedd treftadaeth ddiwylliannol pwysig. Cafodd 'Prosiect Tirweddau Cuddiedig Côr y Cewri' yn y DU, 'Prosiect Carnuntum ArchPro' yn Awstria, a darganfod llong-gladdiad o Oes y Llychlynwyr yn Norwy gryn gyhoeddusrwydd.

Yn y cyflwyniad rhoddir sylw i ddatblygiadau technegol y deng mlynedd ddiwethaf a gwaith ymchwil presennol LBI ArchPro. Trafodir sawl darganfyddiad pwysig, a dangosir sut mae gwahanol ddulliau mesur yn cael eu hintegreiddio a sut mae dadansoddi archaeolegol ar y cyd yn cael ei gyflawni.

Bywgraffiad

Astudiodd Mario Wallner Astudiaethau Celtaidd yn Vienna ac mae wedi bod yn gweithio i LBI ArchPro o'r cychwyn cyntaf. Cymerodd ran amlwg yn y gwaith maes a oedd yn gysylltiedig â phrosiectau archwilio geoffisegol graddfa-fawr y sefydliad, er enghraifft, 'Prosiect Tirweddau Cuddiedig Côr y Cewri', tref Rufeinig Carnuntum, ac aneddiadau'r Llychlynwyr yn Birka. Mae hefyd yn gyfrifol am ddehongli a dadansoddi'n archaeolegol sawl set ddata gyfatebol. Ers 2010 mae ganddo gysylltiad cryf â Phrifysgol Bangor, yn sgil ymuno â 'Phrosiect Meillionydd', prosiect cloddio ym mhen pellaf Penrhyn Llŷn.